**Newyddlen** Rhifyn 2 Gorffennaf 2007

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Dyma ail rifyn newyddlen newydd CCAUC. Ynddi cewch wybodaeth ar ddatblygiadau newydd a diweddar mewn cyllido addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys cysylltiadau ag eitemau newyddion a chylchlythyrau. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o rai o'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yng Nghyfarfodydd y Cyngor.

- Bydd clicio ar eitem yn y mynegai isod yn mynd â chi i stori yn y newyddlen.
- Bydd clicio ar stori yn y newyddlen yn mynd â chi i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

**Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu yn emma.raczka@hefcw.ac.uk os hoffech chi gael y newyddlen hon mewn fformat wahanol, fel testun mawr neu Braille.**

## Yn y rhifyn hwn


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ➔Rhaglen o ymweliadau â sefydliadau addysg uwch | ➔Cyfarfodydd Cyngor CCAUC | ➔Dyraniadau cyllid Trydedd Genhadaeth ar gyfer 2007/08 i 2009/10 | ➔Prifysgolion Cymru'n talu'n dda | ➔Trefniadau'r dyfodol ar gyfer cyllid cyfalaf |
| ➔£7.5 miliwn i hybu cydweithio mewn addysg uwch yn ne-orllewin Cymru | ➔Cyllido strategaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon | ➔Datganiadau Monitro Blynyddol | ➔Digwyddiadau a chyhoeddiadau sydd ar ddod | ➔Gwybodaeth am CCAUC |


## Rhaglen o ymweliadau â sefydliadau addysg uwch

Rydym yn dod i ddiwedd cylch tair blynedd o ymweliadau sefydliadol â holl sefydliadau addysg uwch Cymru. Bu hwn yn gyfle gwych i ni:

- ymwneud â sefydliadau unigol yn fwy;
- cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Cyngor a'r Tîm Rheoli am y sefydliadau hynny; a
- gwella ein dulliau o roi adborth i sefydliadau.

Rydym wedi gallu trafod, ar y lefelau uchaf, y prif faterion y mae sefydliadau'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r hyn maen nhw'n ei weld fel eu camau nesaf, rydym hefyd wedi cael y pleser o gael ein harwain o gwmpas rhai o gyfleusterau mwyaf sylweddol y sefydliadau, gan gynnwys canolfannau celf a dylunio a chyfleusterau ymchwil.

Byddwn yn ysgrifennu at sefydliadau cyn bo hir am gynllunio cylch newydd o ymweliadau i ddechrau yn 2008. ➔yn ôl

### Oeddech chi'n gwybod?

Y dangosodd ffigurau diweddaraf i **135,422** o ymrestriadau fod yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn y flwyddyn academaidd 2005/06.

## Cyfarfodydd Cyngor CCAUC

Cyfarfu'r Cyngor am y tro olaf yn y flwyddyn academaidd 2006/07 ar 29 Mehefin 2007. Mae'r newyddlen hon yn cynnwys newyddion ar rai o'r prif faterion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod nesaf ar 21 Medi 2007. ➔yn ôl

## Dyraniadau cyllid Trydedd Genhadaeth ar gyfer 2007/08 i 2009/10

Mae Cronfa Trydedd Genhedaeth CCAUC yn cefnogi addysg uwch mewn gweithgareddau sy'n fuddiol i'r economi a'r gymuned. Gall y rhain fod yn weithgareddau mewn menter a mentergarwch, fel datblygiad sgîl-gwmnïau, gwasanaethau i fusnesau fel hyfforddiant, ymgynghoriaeth neu ymchwil gontract, gwella sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion a gweithgareddau datblygu'r gymuned fel darlithoedd cyhoeddus, arddangosfeydd a digwyddiadau eraill i blant ac oedolion.

Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n cael £6.1 miliwn y flwyddyn am y tair blynedd nesaf ar gyfer gweithgareddau a amlinellwyd yn eu Strategaethau Trydedd Genhadaeth. Mae'r rhain i fod i mewn erbyn 31 Awst 2007.

←yn ôl

## Prifysgolion Cymru yn talu'n dda

Mae ffigurau yn dangos bod prifysgolion fel cynhyrchwyr incwm yn parhau i hybu economi a chymunedau Cymru.

Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru nid yn unig yn creu busnesau ac yn gweithio gyda busnesau er cynnydd economaidd – maent yn cynorthwyo ag adfywio lleol hefyd.

Mae chweched adroddiad arolwg blynyddol *Rhyngweithiad Addysg Uwch – Busnes a Chymuned (HE-BCI)* yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wella ar draws ystod o ddangosyddion cyfraniad economaidd a chymdeithasol trwy weithgareddau fel cyflwyno gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori neu fasnacheiddio gwybodaeth newydd.

Meddai'r Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC: "Mae'r arolwg hwn yn dangos na allwn werthfawrogi'n rhy isel gyfraniad economaidd a chymunedol addysg uwch yng Nghymru at y busnesau a'r mentrau cymdeithasol y maent yn gweithio gyda nhw. Bu'r tyfiant yn ystod y chwe blynedd diwethaf yn rhagorol, gyda phrifysgolion Cymru nid yn unig yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond hefyd yn rhagori ar ddisgwyliadau am sector o'i faint, sydd i'w gyfrif am tua phump y cant o addysg uwch yn y DU."

←yn ôl

## Oeddech chi'n gwybod?

Bod **55%** o ymrestriadau mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer 2005/06 ar gyfer cyrsiau amser llawn neu gyrsiau rhyngosod.

## Trefniadau'r dyfodol ar gyfer cyllid cyfalaf

Mae CCAUC yn cynnig cyllid cyfalaf i sefydliadau i gefnogi buddsoddiad mewn adeiladau ac offer ar gyfer addysgu ac ymchwil.

Yn gynnar yn 2007, ymgynghorom â'r sector ar gynigion am ymagwedd ddiwygiedig ar drefniadau ar gyfer cyllid cyfalaf yn ystod 2008-09 i annog sefydliadau i gymrryd ymagwedd fwy hir dymor at fuddsoddiad cyfalaf.

Er bod sefydliadau'n cefnogi cynigion a fwriadwyd i helpu rheoli eu buddsoddiad cyfalaf ar sail fwy strategol, tymor hir, mae nifer o oblygiadau ymarferol y mae angen eu datrys.

Dyma pam yr ydym yn bwriadu gweithio gyda staff o'r sector i ddatblygu fframwaith ar gyfer y wybodaeth sydd ei hangen o dan yr ymagwedd newydd a dethol ystod ddichonol o ddangosyddion. Dros yr haf, bydd swyddogion CCAUC yn cyfarfod â grŵp o staff o Adrannau Ystadau, Cynllunio a Chyllid yn ein sefydliadau addysg uwch i weithio ar y materion hyn cyn gwahodd y Cyngor i benderfynu'n derfynol am sut rydym i roi'r trefniadau newydd ar waith.

←yn ôl

## £7.5 miliwn i hybu cydweithio mewn addysg uwch yn ne-orllewin Cymru

Bydd tri sefydliad addysg uwch yn ne-orllewin Cymru yn derbyn £7.5 miliwn i ddatblygu partneriaeth arloesol sy'n integreiddio amryw o wasanaethau i fyfyrwyr a staff.

Dyfarnwyd yr arian i Brifysgol Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC.

Darperir y cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i hymgyrch *Ymgeisio'n Uwch* i helpu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i gyflwyno'r math o newidiadau pellgyrhaeddol a all wella perfformiad, hybu cystadleurwydd, a sicrhau mwy o werth am arian mewn gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r cydweithio'n adeiladu ar waith cynharach rhwng y tri sefydliad a bydd yn arwain at integreiddio amryw o wasanaethau a swyddogaethau gweinyddol, gan gynnwys cofnodion myfyrwyr a systemau mewnrwyd, creu llyfrgell 'rith' a gwasanaeth gyrfaoedd ar gyfer de-orllewin Cymru, a datblygu staff. Bydd hefyd yn sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol a rheolaeth ystadau yn cael eu cydgysylltu.

Meddai Carwyn Jones, y cyn-Weinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg: "Bydd y cydweithio rhwng y tri sefydliad addysg uwch hyn yn dod â manteision mawr. Bydd y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gwella gwasanaethau ac yn darparu cyfleusterau rhagorol ar gyfer y myfyrwyr sy'n mynychu'r sefydliadau."

←yn ôl

## Cyllido strategaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)

Cyhoeddom gylchlythyr ar 15 Mai 2007 yn rhoi gwybod i sefydliadau am gyllid strategaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) o £1,161,470. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau grant lleoliadau myfyrwyr israddedig. Neulltuir y grantiau hyn mewn sefydliadau ac yna fe'u telir yn uniongyrchol i fyfyrwyr cymwys ar raglenni HCA israddedig.

Talwyd dyraniad Partneriaeth HCA ychwanegol o £260,770 i sefydliadau i helpu gwrthbwyso'r effaith y gall gostyngiadau yn nhargedau derbyn HCA cynradd, yn arbennig, ei chael ar ddichonoldeb rhai adrannau a sefydliadau llai – gan gynnwys y rhai sy'n cynnig darpariaeth gyfrwng Gymraeg- ac ar gefnogi a chynnal partneriaethau HCA.

←yn ôl

## Datganiadau Monitro Blynyddol

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i ni fonitro perfformiad o dan gyllid menter yn erbyn targedau cytunedig. Fodd bynnag, rydym yn awyddus na ddylai'r broses fod yn rhy feichus.

Bob blwyddyn, gofynnwn i'r sector gyflwyno Datganiadau Monitro Blynyddol (DMB) yn rhoi manylion cryno ar wariant a chyflawniadau yn erbyn targedau ar gyfer meysydd sy'n cael cyllid gan gynnwys ehangu mynediad, trydedd genhadaeth a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Yn ddiweddar edrychom ar sut yr ymgymerir â'r broses hon yn rhannau eraill y DU. Mae ein casgliadau'n dangos bod y ffurflenni DMB a ddosbarthwn yn cynorthwyo sefydliadau addysg uwch trwy gynnwys manylion am y targedau ar gyfer pob maes a fonitrir. Credwn fod hyn yn helpu sefydliadau i'w llenwi'n gyflym.

Hefyd cawsom fod caniatáu i sefydliadau ddiweddaru'r ffurflen ar gyfer targedau'r flwyddyn ddilynol yn lleihau maint y gwaith papur sydd ei angen.

Yn ychwanegol, ac yn unol ag arfer da mewn mannau eraill yn y DU, o 2007/08 ymlaen, ni fydd angen mwyach unrhyw wybodaeth bellach arnom oddi wrth sefydliadau pan fo targedau wedi'u cyflawni'n gyfan gwbl a'r cyllid wedi'i wario i gyd.

←yn ôl

## Cymeradwywyd Polisi Cyfathrebu newydd a Strategaeth i gyd-fynd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, priodol, amserol a hygyrch i gefnogi gweithgareddau CCAUC.

Mae'r polisi'n pennu ein nodau a'n hamcanion o ran ein amryw weithgareddau cyfathrebu yn fewnol ac yn allanol, ac mae'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau gweithwyr ac aelodau Cyngor CCAUC wrth gyfrannu at reoli'r gweithagareddau hynny'n effeithiol.

Mae'r Strategaeth yn pennu ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd tuag at fodloni nodau ac amcanion y Polisi hwn.

←yn ôl

## Oeddech chi'n gwybod?

Bod 10% o'r rhai a oedd wedi ymrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2005/06 yn dod o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.

Bod 7% o'r rhai a oedd wedi ymrestru, yn anabl.

## Cyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar ddod

Cyfarfod Deialog Strategol ag Addysg Uwch Cymru (AUC) a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC) – 6 a 7 Medi ym Mhrifysgol Cymru, Bangor

←yn ôl

## Cynlluniau Statudol sydd ar gael ar ein gwefan

**Ewch i:**
Cynllun Iaith Gymraeg
Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
Ffurf Ddrafft Cynllun Cydraddoldeb Rhyw

←yn ôl

## Cyhoeddiadau sydd ar ddod

Gweithredu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Graham - Awst.

Gwerthuso ac adolygu polisïau a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol yn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Cymru mewn cysylltiad â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 – Awst 2007.

Adolygiad Polisi Ymchwil: Canlyniadau Ymgynghoriad – Gorffennaf 2007.

←yn ôl

## Nod CCAUC

Ein nod yw hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru o'r radd flaenaf, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac yn ehangach.

## Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol. ←yn ôl

Trwy system gyllido agored ac amlwg, rydym yn canolbwyntio ein cefnogaeth i'r sector ar:

- hyrwyddo **datblygiad dysgu ac addysgu**,yn arbennig ansawdd y profiad dysgu;
- buddsoddi mewn sail **ymchwil** gadarn a datblygu rhagoriaeth ymchwil;
- annog gweithgareddau mewn addysg uwch sy'n cefnogi **busnes a'r gymuned**;
- **ehangu mynediad** at addysg uwch;
- cefnogi datblygiad addysg uwch yn **yr iaith Gymraeg**;
- **cryfhau'r sector** – gyda phwyslais ar annog ailgyflunio a chydweithredu, cynaladwyedd ariannol, arweinyddiaeth a threfn lywodraethol effeithiol, datblygiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, a chynnal yr ystad; ac
- achredu a chyllido darparwyr cyrsiau **hyfforddiant cychwynnol athrawon** yng Nghymru.

←yn ôl

Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido,
dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

←yn ôl

# www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru.** ←yn ôl

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw